OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 674

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 4

### Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018: Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

**57.** Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018([**1**]) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**58.** Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "i Orchymyn 2018" rhodder "neu Atodlen 7 i'r Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Nid yw paragraff 2(b) i (d) yn gymwys i lwyth sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir.".

(c) ym mharagraff (3)(b), yn lle "a gyflwynir i Gymru o drydedd wlad" rhodder—

"—

(i) a ddygir i fan cyrraedd a leolir yng Nghymru ac nas bwriedir iddo fynd i fan arolygu cymeradwy yn un o diriogaethau eraill y DU; neu

(ii) a ddygir i fan cyrraedd a leolir yn un o diriogaethau eraill y DU ac y bwriedir iddo fynd i fan arolygu cymeradwy yng Nghymru";

(d) ar ôl paragraff (3), mewnosoder—

"(4) Mae i eiriau ac ymadroddion nad ydynt wedi eu diffinio yn y rheoliad hwn ac sy'n ymddangos yng Ngorchymyn 2018 yr un ystyr yn y rheoliad hwn ag sydd iddynt yng Ngorchymyn 2018.";

**59.** Yn rheoliad 4(6)(a), ar ôl "pasbortau planhigion" mewnosoder "y DU".

**60.** Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "paragraff 5 o'r Atodiad i'r Penderfyniad" rhodder "eitem 7 o Ran D o Atodlen 4 i'r Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019";

(b) hepgorer paragraff (2).

**61.** Hepgorer rheoliad 7.

**62.** Yn rheoliad 8, ym mharagraffau (3) a (6), yn lle "yr Undeb" rhodder "y DU".

**63.** Yn Atodlen 5, yng ngholofn 1 o'r tabl, yn lle "yr Undeb", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "y DU".

([**1**]) O.S. 2018/1179 (Cy. 238).